# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Arolygiadau a sgoriau hylendid bwyd*

## 2 Rhaglen arolygiadau hylendid bwyd

(1) Rhaid i awdurdod bwyd lunio, ac adolygu, rhaglen sy'n pennu—

(a) a oes rhaid i sefydliad busnes bwyd yn ei ardal gael ei arolygu, a

(b) os oes angen arolygiad, mynychder yr arolygiadau.

(2) Rhaid i awdurdod bwyd arolygu sefydliadau busnes bwyd yn ei ardal yn unol â'r rhaglen.

(3) Wrth lunio ac adolygu ei raglen, rhaid i awdurdod bwyd roi sylw i faterion a bennir gan yr ASB ac a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid i'r materion a bennir gan yr ASB gynnwys asesiad o'r risg i iechyd y cyhoedd—

(a) sy'n gysylltiedig â'r math o fwyd a drafodir gan sefydliad,

(b) sy'n gysylltiedig â'r dull o drafod y bwyd, ac

(c) sy'n codi o record y sefydliad o gydymffurfio â chyfraith hylendid bwyd.

(5) Yn y Ddeddf hon—

ystyr "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yr ardal yng Nghymru lle y mae'r sefydliad (neu awdurdod iechyd porthladd o dan yr amgylchiadau a ragnodir gan adran 5(3) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990);

ystyr "gweithredwr" ("*operator*") sefydliad busnes bwyd yw person sy'n ymwneud â rheoli'r sefydliad;

ystyr "sefydliad busnes bwyd" ("*food business establishment*") yw unrhyw uned o fusnes sydd wedi ei gofrestru gydag awdurdod bwyd drwy rinwedd Erthygl 6 o Reoliad (EC) Rhif 852/2004 neu sydd wedi ei gymeradwyo o dan Erthygl 4 o Reoliad (EC) Rhif 853/2004 (neu sydd wedi ei gofrestru neu ei

gymeradwyo o dan ddarpariaethau cyfatebol yn lle hynny ar gyfer cofrestru neu cymeradwyo sefydliadau busnes bwyd) ac—

(a) sy'n cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, neu

(b) sy'n cyflenwi bwyd i fusnes arall.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau—

(a) diwygio'r diffiniad o sefydliad busnes bwyd, gan gynnwys ehangu'r categori o sefydliad a fydd yn ddarostyngedig i raglen arolygiadau;

(b) diwygio'r diffiniad o awdurdod bwyd (er enghraifft, i gynnwys cyrff eraill).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** A. 2(1)-(4)(6) mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(b)**

**I3** A. 2(5) mewn grym ar 28.11.2013 at ddibenion penodedig gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(b)**

**I4** A. 2(5) mewn grym ar 28.11.2014 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2014/3089, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Adran 2.